PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY

SEMESTER DAU 2021- 2022

PRIFYSGOL ABERYSTWYTH
ADRAN GWLEIDYDDIAETH RYNGWLADOL

PAPUR ARHOLIAD
GW2/39920: CENEDLAETHOLDEB MEWN THEORI AC YMARFER

Amser a ganiateir: **24 AWR**

Rhaid i chi gyflwyno'ch ateb mewn un ddogfen i'r man cyflwyno yn TurnItIn cyn 12 P.M. (BST) ar y diwrnod ar ôl i'r papur arholiad gael ei ryddhau. Ni fydd gwaith a gyflwynir yn hwyr yn cael ei dderbyn.

Disgwylir i ymgeiswyr ateb DAU gwestiwn, **UN o BOB ADRAN**. Dylai bob ateb fod yn 1, 000 o eiriau yr un (+/-10%). Peidiwch â chyflwyno deunydd rydych wedi'i gyflwyno o'r blaen.

GALL MYFYRWYR GYFLWYNO ATEBION I'R PAPUR HWN YN Y GYMRAEG NEU'R SAESNEG.

ADRAN A: CENEDLAETHOLDEB DAMCANIAETHOL

1. Mae esboniadau primordaidd ar darddiadau cenhedloedd wedi'u beirniadu am ddefnyddio 'cenedlaetholdeb ôl-weithredol'. Beth mae'r feirniadaeth honno yn ei olygu, ac a gytunwch chi â hi?
2. I ba raddau y mae gwahaniaethu rhwng yr ethnig a'r dinesig yn ffordd ddefnyddiol o gategoreiddio gwahanol fathau o genedlaetholdeb?
3. Os endidau wedi'u 'dychmygu' yw cenhedloedd, a yw hynny'n golygu y gellir creu cenhedloedd o ddim byd?

4. Cloriannwch yn feirniadol gryfderau a gwendidau’r dull ethnosymbolaidd o esbonio cenhedloedd a chenedlaetholdeb.
5. Rhowch grynodeb o ddamcaniaeth fodernaidd Tom Nairn ar genedlaetholdeb, a’i chloriannu. I ba raddau y mae Nairn yn llwyddo i esbonio gwreiddiau cenhedloedd?
6. ‘Gwnaeth cyfalafiaeth yr argraff wasg roi sefydlogrwydd newydd i ieithoedd, a helpodd yn y tymor hir i feithrin y ddelwedd honno o’r henfyd sydd mor ganolog i syniad goddrychol y genedl.’ Beth mae hynny yn ei olygu, ac a gytunwch chi? (Anderson, 1994: 94)

ADRAN B: CENEDLAETHOLDEB AR WAITH

1. A yw mudiadau poblyddol cyfoes ledled Ewrop a’r Gorllewin yn gyffelyb â’i gilydd, ynteu ai dim ond yr ymadrodd sydd ar led ar hyn o bryd yw hwnnw a ddefnyddir i ddisgrifio ffenomenau gwahanol?
2. Disgrifir poblyddiaeth yn aml fel rhywbeth symudliw fel camelion. Beth mae hynny’n ei olygu?
3. Ym mha ffordd mae egwyddor hunanbenderfyniaeth genedlaethol yn ‘trwblu'r byd ers Chwyldro Ffrainc’?
4. Pa ran roedd disgwrs y genedl oruchafol yn ei chwarae pan chwalodd Iwgoslafia?
5. ‘Y tu hwnt i'r ffaith bod y pleidiau hyn wedi dod i’r amlwg mewn ymateb i densiynau rhwng y canol a’r ymylon, mae'n amhosibl siarad am bleidiau cenedlaetholgar lleiafrifol fel un teulu unffurf o bleidiau’. Trafodwch yn feirniadol gan gyfeirio at **o leiaf un** blaid genedlaetholgar leiafrifol.

6. Ym mha ffordd y mae cenedlaetholdeb Hindŵaidd yn herio'r syniad o ‘Undod mewn Amrywiaeth’ yn India?
7. Pam mae menywod fel arfer wedi’u ‘cuddio’ yn y damcaniaethu amrywiol ar y ffenomenau cenedlaetholgar?'
8. ‘Gyda meddyliau ysgafn diofal, tybiasom fod y byd yn symud yn ddi-droi’n-ôl y tu hwnt i genedlaetholdeb, y tu hwnt i lwytholdeb, y tu hwnt i gyfyngiadau plwyfol yr hunaniaeth a ysgrifennwyd yn ein pasbortau tuag at y diwylliant marchnad fyd-eang a oedd i fod yn gartref newydd i ni. Wrth edrych yn ôl, dim ond chwibanu yn y tywyllwch oeddem ni. Mae’r gorthrymedig wedi dychwelyd a’i enw yw cenedlaetholdeb.’ (Ignatieff, 1994: 2). Trafodwch yn feirniadol.
9. ‘Nid yw’r disgyrsiau cenedlaethol trechol yn rhoi llawer o le i bobl frodorol i gymryd rhan weithredol ym mhrosesau creu’r genedl’ (Canessa, 2005: 5). Trafodwch yn feirniadol.